Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr / Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire

**Prifysgol Aberystwyth**
**P5 Campws Penglais**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr / Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i Oedolion yn 2016 gan sefydlu Canolfan Genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr (DCCPSG) yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe'i lleolir o fewn Cyfarwyddiaeth y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol Prifysgol Aberystwyth.

DCCPSG yw darparwr mwyaf y sector Cymraeg i Oedolion o ran maint daearyddol gydag, ar gyfartaledd, dros 1,600 o ddysgwyr unigol yn flynyddol ar draws siroedd Ceredigion, Powys a Sir Gâr. Mae'n derbyn grant craidd o £1,178,616 yn ystod 2021-2022 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cynigir ystod o gyrsiau prif ffrwd o lefel Mynediad i Hyfedredd, yn gymunedol ac yn y gweithle, yn ogystal â rhaglen o weithgareddau cefnogi dysgwyr ar draws Geredigion, Powys a Sir Gâr sy'n cefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.

Yn Sir Gâr, mae DCCPSG yn gyfrifol am gyrsiau dwys ac uwch, a chyrsiau atodol yn unig, tra bod Dysgu Cymraeg Sir Gâr yn darparu cyrsiau llai dwys ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd.  Yn siroedd Ceredigion a Phowys, mae DCCPSG yn darparu'r amrediad llawn o gyrsiau Cymraeg i oedolion.

Ar ddechrau blwyddyn 2021-2022, cyflogwyd 21 o staff craidd ynghyd â 53 o staff cyfnod penodol. Pennaeth DCCPSG sydd yn gyfrifol am arwain y darparwr yn strategol ac yn weithredol. Mae tîm o 6 o gydlynwyr rhaglen sy'n arwain rhaglenni dysgu lleol a rhanbarthol a rheoli timau o diwtoriaid lleol. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys Cydlynydd Hyfforddiant, Ansawdd a Chwricwlwm, Cydlynydd Gweinyddol a phedwar o staff gweinyddol.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gar (CCPSG) yn gymuned ddysgu gynhaliol a gofalgar iawn sydd wedi addasu a llwyddo yn hynod effeithiol ar y platfform dysgu ar-lein. Er mis Mawrth 2020, mae bron pob un o gyrsiau'r darparwr wedi'u cynnal ar-lein.

Mae'r darparwr yn llwyddo i greu cymuned ddysgu gynhwysol sy'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i'w dysgwyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr a'u deilliannau dysgu. Mae yna berthynas glòs rhwng y tiwtoriaid a'u dysgwyr ac, o ganlyniad, mae cymhelliant dysgwyr yn uchel ac maent yn gwneud cynnydd cryf.

Yn y gwersi, mae bron pawb yn gwrando'n astud ac mae'r rhan fwyaf yn ateb yn briodol i sbardunau llafar, gweledol a chlywedol. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu llafaredd yn gadarn trwy siarad yn ddigymell â'r tiwtor a'i gilydd. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus a chywir wrth iddynt gaffael yr iaith gydag ychydig ohonynt yn datblygu llafaredd sy'n well na'r lefel ddisgwyliedig.

Un o gryfderau'r darparwr yw ei fod yn flaengar wrth gynllunio a chyflwyno rhaglen sy'n cynnig cyrsiau prif ffrwd ochr yn ochr â chyrsiau i grwpiau penodol o ddysgwyr. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cefnogi gweithlu Bwrdd Iechyd Hywel Dda trwy'r cynllun Codi Hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol yn y gwaith, er enghraifft yn y canolfannau brechu.

Mae DCCPSG yn darparu cefnogaeth i ddysgwyr hunanastudio yn Llywodraeth Cymru yn ogystal â darparu cyrsiau i staff ysgolion a chyrsiau i rieni, fel yn achos cynllun peilot Cymraeg yn y Cartref mewn pump ysgol gynradd yng Ngheredigion, sydd yn rhoi mynediad ehangach iddynt glywed a defnyddio'r Gymraeg. Mewn partneriaeth strategol â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i hyfforddi'r gweithlu addysg, mae'n cyfrannu'n fwriadus at gynllunio a datblygu hyfforddiant y gweithlu hwnnw.

Mae'r darparwr yn gweithio'n briodol i gynllunio darpariaeth gyda Dysgu Cymraeg Sir Gâr yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau rhannu data cenedlaethol cyfredol yn caniatáu i ddarparwyr gael mynediad at wybodaeth bersonol dysgwyr sy'n trosglwyddo o un darparwr i'r llall. O ganlyniad, nid yw'r ddau ddarparwr sy'n weithredol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnal trafodaethau ansoddol ynglŷn â chynnydd a safonau dysgwyr sy'n trosglwyddo rhyngddynt.

Mae uwch arweinwyr y darparwr yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaeth. Mae ganddynt weledigaeth a strategaeth bendant sy'n hybu nodau ac amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel uned allweddol o fewn gwasanaeth ehangach Prifysgol Aberystwyth, gan ddylanwadu'n uniongyrchol a chadarnhaol ar ei datblygiad ieithyddol.

## Argymhellion

A1 Cydweithio â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Dysgu Cymraeg Sir Gâr i ddefnyddio data yn effeithiol er budd safonau a chynnydd dysgwyr sy’n trosglwyddo rhwng y ddau ddarparwr sy’n weithredol yn Sir Gaerfyrddin.

A2 Cysoni'r arferion da o gefnogi dysgwyr i wella eu hynganu.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn sy’n disgrifio ei waith yn hyfforddi'r gweithlu addysg i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gweithredol.

## Prif ganfyddiadau

**Dysgu: Da**

Mae bron bob un o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (DCCPSG) yn cyfrannu'n frwd yn eu gwersi ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr Cymraeg eu hiaith. Maent yn medru cyfleu'n glir pam maent yn dysgu'r iaith. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus yn ystod eu gwersi ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno i sefyllfaoedd gwahanol yn unol â'u lefel. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn defnyddio'r Gymraeg yn fuddiol y tu allan i'w gwersi, naill ai'n gymdeithasol, yn y gwaith neu drwy ddefnyddio adnoddau ychwanegol fel adnoddau electronig, i atgyfnerthu ac ymestyn eu dysgu.

Yn y gwersi, mae bron pawb yn gwrando'n astud ac mae'r rhan fwyaf yn ateb yn briodol i sbardunau llafar, gweledol a chlywedol. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu llafaredd yn gadarn trwy siarad yn ddigymell â'r tiwtor a'i gilydd. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus a chywir wrth iddynt gaffael yr iaith, gydag ychydig ohonynt yn datblygu llafaredd sy'n well na'r lefel ddisgwyliedig. Mae ychydig o ddysgwyr yn dueddol o beidio ag ymestyn eu hatebion ac mae eu hynganiad a goslef yn dangos dylanwad nodweddion ynganiad Saesneg ar adegau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y lefelau uwch yn datblygu i fod yn siaradwyr cynyddol hyderus a rhugl. Erbyn lefel hyfedredd, maent yn deall nodweddion tafodieithol a chyweiriau iaith gwahanol ac yn medru trafod themâu amrywiol yn soffistigedig iawn, gan gynnwys pynciau llosg fel sgil effeithiau COVID-19, yn ogystal â materion llenyddol fel trafod cerdd Y Gododdin gan Aneurin.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn fuddiol. Yn unol â'u lefel, maent yn darllen ar goedd yn addas gan ynganu'n briodol, ar y cyfan.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau darllen gan ddatblygu o feistroli brawddegau a chwestiynau sylfaenol amdanyn nhw eu hunain i ddarllen a deall am bobl eraill. Erbyn diwedd lefel sylfaen, mae llawer yn dangos dealltwriaeth dda o ddarnau mwy estynedig sydd yn cynnwys amrywiaeth o gystrawennau ac amseroedd y ferf. Mae llawer o ddysgwyr lefel canolradd yn dangos cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau darllen ymhellach ac yn dysgu sut i gyfuno medrau darllen ac ysgrifennu'n fwyfwy effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefelau uwch yn medru darllen ystod amrywiol o destunau ffurfiol ac anffurfiol yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr lefelau uwch a hyfedredd yn cyfuno medrau gan ddarllen erthyglau ac ymateb yn ysgrifenedig iddynt yn huawdl a rhugl.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau gwahanol yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddechreuwyr yn datblygu'n llwyddiannus fel eu bod yn medru defnyddio atebion cadarnhaol a negyddol yn briodol wrth ymateb i gwestiynau personol. Maent yn llwyddo i frawddegu'n addas i greu deialogau syml. Mae llawer yn ysgrifennu darnau personol gan ddefnyddio'r amseroedd presennol a'r amherffaith yn briodol ac yn defnyddio'r dyfodol cwmpasog yn gywir, ar y cyfan, mewn

ymarferion amrywiol. Erbyn lefel sylfaen, mae llawer yn defnyddio'r amser amodol ac ansoddeiriau cymharol rheolaidd ac afreolaidd yn addas. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn llwyddo i ddefnyddio arddodiaid cyfansawdd i lenwi bylchau gan dreiglo'n gywir. Mae ychydig o ddysgwyr lefelau mynediad a sylfaen yn cael anawsterau gyda rheolau treiglo ond nid yw hyn fel arfer yn effeithio ar lif nac ystyr eu gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr lefel canolradd yn llwyddo i ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda ac maent yn dod i ddeall strwythurau'r iaith yn well, er enghraifft trwy ddeall sut a phryd i ddefnyddio'r gorffennol cryno neu'r amherffaith i gyfleu ystyron gwahanol. Mae'r broses o ddyfnhau dealltwriaeth ieithyddol y dysgwyr yn parhau wrth i ddysgwyr symud ymlaen i gyrsiau uwch. Defnyddia'r goreuon drefnolion gwrywaidd a benywaidd a'r dyfodol arferiadol yn briodol. Maent yn aralleirio brawddegau mewn amseroedd gwahanol y ferf gan ddangos ystwythder ieithyddol a dealltwriaeth gadarn iawn o strwythurau'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel hyfedredd yn cyfuno medrau'n llwyddiannus gan ddarllen, crynhoi ac ymateb i erthyglau am faterion fel hela a thalu i weld meddygon. Mae dysgwyr ar y lefel hon yn datblygu'n ddefnyddwyr pwrpasol o'r iaith sydd yn medru defnyddio'r Gymraeg at ddibenion proffesiynol yn rhwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyweiriau ffurfiol yn llwyddiannus i ddysgu sut i gofnodi mewn cyfarfodydd, ysgrifennu llythyrau ffurfiol ar ran sefydliadau a gweithredu fel canolwr ar ran person sy'n ceisio am swydd.

Ar gyfartaledd, mae tua 1,600 o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau'r darparwr yn flynyddol. Cynyddodd niferoedd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, sef 2019-2020, a chwblhaodd mwyafrif o ddysgwyr eu cyrsiau yn ystod y flwyddyn honno ond dros gyfnod o dair blynedd, mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau. Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae nifer y dysgwyr sydd yn parhau i gyrsiau dilynol wedi cynyddu'n sylweddol o dua hanner i lawer ohonynt yn ystod 2020-2021 i 2021-2022. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu eu cyrsiau'n gyson.

Ni chynhaliwyd cyfres lawn o arholiadau Cymraeg i Oedolion gan CBAC yn ystod 2019-2020 a 2020-2021. Mae nifer y dysgwyr cymwys sydd yn dewis sefyll arholiadau wedi cynyddu'n sylweddol o ychydig yn ystod 2018-2019 i leiafrif yn ystod 2020-2021 ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llwyddo.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae DCCPSG yn gymuned ddysgu gynhaliol a chynhwysol iawn sydd wedi addasu a llwyddo yn hynod effeithiol ar y platfform dysgu ar-lein. Mae bron bob dysgwr yn mwynhau'r dysgu byrlymus ac yn dangos brwdfrydedd heintus tuag at eu dysgu. Mae bron pawb yn teimlo'n ddiogel ac mae'r dysgwyr yn ffyddiog bod y darparwr yn gofalu am eu lles ac maent yn gwybod â phwy i gysylltu petai angen cyngor arnynt.

Mae'r dysgwyr yn teimlo'n rhan bwysig o gymuned glòs a chyfeillgar y dosbarth. Mae bron pawb yn gefnogol iawn i'w gilydd ac maent yn dangos parch arbennig at farn dysgwyr eraill. Mae'r dysgwyr yn hynod groesawgar wrth ymwelwyr gan ddangos parodrwydd i holi a blaengaredd i ymestyn eu gwybodaeth ac i ddysgu mwy am y Gymraeg a Chymreictod. Mae bron pawb yn teimlo'n hynod o hapus a chartrefol yn y gwersi, gan ddangos mwynhad a hiwmor wrth ddysgu. Mae bron pawb o'r dysgwyr yn canolbwyntio'n dda iawn ac yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn dysgu a defnyddio elfennau ieithyddol newydd. Mewn ychydig o achosion, mae enghreifftiau

o ddysgwyr yn dangos ymroddiad eithriadol i ymarfer eu Cymraeg mewn ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn isel iawn.

Mae llawer yn rhyngweithio â'i gilydd yn naturiol yn y Gymraeg. Yn unol â'u lefel, ac ar draws yr ystod o lefelau, mae'r dysgwr yn hapus i ryngweithio mewn pâr neu grŵp ac ar adegau yn trafod pynciau astrus yn hyderus iawn. Mae'r dysgwyr yn hyderus i fentro heb ofni gwneud camgymeriadau oherwydd naws gefnogol a chynhaliol y dosbarthiadau. Mae bron pawb yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth bersonol eithriadol gan diwtoriaid yn ystod gwersi ac yn derbyn anogaeth ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth. Mae llawer yn ymgymryd â, a chwblhau, tasgau gwaith cartref yn llwyddiannus gan ddyfalbarhau wrth wynebu anawsterau. Drwy gefnogaeth gref y tiwtor a'r ystod eang o adnoddau cyfoethog, er enghraifft apiau iaith, maent yn sicrhau cynnydd pellach wrth ddysgu'r Gymraeg. Mae llawer yn manteisio ar y sesiynau un i un sydd ar gael i'r dysgwyr hynny sy'n colli gwersi ac mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar eu cynnydd. Defnyddia'r dysgwyr gyfryngau cymdeithasol yn gyson i ymgysylltu â'i gilydd mewn grwpiau er mwyn cefnogi ei gilydd y tu allan i'r dosbarth a threfnu i fynychu digwyddiadau cymdeithasol. Ychydig sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r cynllun Defnyddio fy Nghymraeg ond mae llawer o ddysgwyr yn gosod targedau personol ar gyfer eu dysgu gyda chymorth eu tiwtoriaid. Mae ychydig yn dewis mynychu cyrsiau atodol i gefnogi eu dysgu.

Mae'r dysgwyr yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu barn ac mae bron pawb o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r drefn gwyno a chanmol. Mae bron pawb yn teimlo'n hyderus bod y darparwr yn gwrando ar eu llais yn gyson, ac yn addasu er eu budd addysgol a phersonol. Er enghraifft, yn sgil ymateb gan ddysgwr am yr angen am adborth manylach ar waith cartref, cynhaliwyd sesiwn rhannu syniadau ac arfer dda i'r tiwtoriaid. Yn ogystal, yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr profiadol yn cefnogi ac yn ysbrydoli dysgwyr newydd trwy ymweld a chyfrannu at eu dosbarthiadau sy'n creu diwylliant uchelgeisiol a'r awydd am welliant parhaus wrth ddysgu'r Gymraeg.

Mae llawer o ddysgwyr yn uchelgeisiol ac yn dangos cymhelliant cryf iawn, er enghraifft i siarad Cymraeg yn y gweithle, gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau. Maent yn gwneud ymdrech i wylio rhaglenni teledu Cymraeg ac mae llawer yn darllen deunyddiau o bob math yn Gymraeg yn unol â'u lefel. Mae llawer o ddysgwyr ar y lefelau canolradd-uwch yn dangos awydd amlwg i gymathu â'r gymuned Gymraeg trwy fynychu cymdeithasau Cymraeg a gweithgareddau diwylliannol amrywiol fel Cymdeithas Edward Llwyd a Merched y Wawr er mwyn ymestyn eu cyswllt â'r iaith a'r diwylliant yn llwyddiannus. Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar, ac yn cael pleser o, fynychu digwyddiadau anffurfiol y tu allan i'r gwersi ffurfiol – wyneb yn wyneb ac ar-lein. Er enghraifft, trwy fynychu teithiau cerdded hanes, clybiau darllen a 'Coffi a chlonc'. Mae dysgwyr yn mwynhau mynychu'r clybiau ac mae'r rhain yn codi eu hyder ac yn hybu cymhelliant. Mae ychydig o ddysgwyr, yn annibynnol ar y darparwr, yn cymryd yr awenau ac yn creu cyfleoedd gwerthfawr, fel sesiynau trafod, i annog dysgwyr eraill i ymarfer y Gymraeg yn y gymuned.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae DCCPSG yn cynnig ystod eang ac amrywiol o gyrsiau ar bob lefel sy'n darparu llwybrau effeithiol a dilyniant cyson i ddysgwyr wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg. Darperir cyrsiau ar wahanol ddwyster sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn

llwyddiannus. Mae arweinwyr yn cefnogi tiwtoriaid yn arbennig wrth ddarparu arlwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n eu cefnogi i gyflwyno gweithgareddau dysgu digidol. Maent yn teilwra cyrsiau sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni nodau personol, er enghraifft cyrsiau sy'n cefnogi rhieni, staff ysgolion a gweithleoedd sy'n cynnwys Prifysgol Aberystwyth a Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Un o gryfderau'r darparwr yw ei fod yn flaengar wrth gynllunio a chyflwyno rhaglen sy'n cynnig cyrsiau prif ffrwd ochr yn ochr â chyrsiau i grwpiau penodol o ddysgwyr. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cefnogi gweithlu Bwrdd Iechyd Hywel Dda trwy'r cynllun Codi Hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol yn y gwaith. Mae hyn yn cyfoethogi'r gwasanaeth maent yn y ei gynnig i'r cyhoedd, er enghraifft yn y canolfannau brechu. Yn ogystal, darperir cyrsiau i staff ysgolion a chyrsiau i rieni, sydd yn ei dro yn cyfoethogi profiad ieithyddol cymuned yr ysgol. Mae hyn yn rhoi mynediad ehangach iddynt glywed a defnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn ymateb yn rhagweithiol i flaenoriaethau cenedlaethol fel cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion wrth i ddisgyblion ac athrawon wneud cynnydd ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae hyn yn cyfrannu'n fwriadus at gynllunio a datblygu hyfforddiant y gweithlu addysg.

Yn ystod y pandemig, mae arweinwyr a thiwtoriaid wedi addasu'r ddarpariaeth yn gyflym i fod ar-lein gan sicrhau bod y dysgu wedi parhau bron yn ddi-dor. Un o nodweddion hynod effeithiol y ddarpariaeth yw bod bron bob tiwtor yn meithrin perthynas gadarnhaol gyda'r dysgwyr gan greu amgylchedd dysgu cefnogol. Mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o anghenion a diddordebau dysgwyr sy'n esgor ar weithgareddau sy'n ennyn a chynnal eu diddordeb i siarad yn estynedig. Mae cydbwysedd da yn y rhan fwyaf o wersi rhwng ymarferion pâr a grŵp, a dysgu dosbarth cyfan sy'n cefnogi dysgwyr i siarad a gwneud cynnydd yn eu medrau. Caiff hyn ei hwyluso'n dda trwy sicrhau cyflymder addas i'r dysgu a chyflwyno sionc. Yn yr arferion gorau, mae tiwtoriaid yn cyfoethogi profiadau dysgu ar bob lefel wrth gyflwyno hanes a diwylliant Cymru yn gelfydd yn y gwersi, er enghraifft traddodiadau'r hen Galan, dathliadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod a'r cysylltiad rhwng cymeriadau hanesyddol fel Twm Siôn Cati a John Dee o fewn ardaloedd a chymunedau'r dysgwyr.

Mae gan diwtoriaid wybodaeth drylwyr am yr iaith ac maent yn ei defnyddio'n fyrlymus mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar dysgwyr. Maent yn fodelau iaith cryf sy'n cyflwyno geirfa ac acenion cymunedau lleol yn llwyddiannus, er enghraifft 'Shwt wyt ti bach?'. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid ar y lefelau is yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddysgwyr wella eu hynganu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cyflwyno gweithgareddau sy'n cynnig her yn unol â lefel dysgwyr ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ymarfer yr iaith. Yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i ddysgwyr drafod testunau llenyddol yn soffistigedig. Mae bron bob tiwtor yn annog dysgwyr i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ac maent yn eu cefnogi'n ddiwyd i wneud defnydd gweithredol o'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'r darparwr yn cynnig arlwy diddorol o weithgareddau cefnogi dysgwyr sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymarfer yr iaith lafar.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Maent yn holi a phrocio'n grefftus wrth annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn amyneddgar wrth roi amser priodol i ddysgwr feddwl cyn ymateb ac yn eu hannog i hunangywiro a chefnogi ei gilydd er mwyn dwyn dysgu blaenorol i gof. Mae tiwtoriaid yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n cefnogi dysgwyr i fentro a chyfranogi'n llawn yn y gwersi. Mae'r darparwr yn gwrando'n gyson ar adborth dysgwyr er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn meithrin medrau ysgrifenedig dysgwyr yn adeiladol ac yn darparu adborth yn effeithiol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r gefnogaeth sy'n eu harfogi i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd siarad Cymraeg mewn cyd-destunau amrywiol ac yn cael effaith fuddiol ar eu defnydd o'r iaith. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgwyr ac yn rhoi'r hyder iddynt ddod yn siaradwyr sy'n falch o siarad Cymraeg yn y cartref, y gwaith a'u cymunedau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r darparwr yn llwyddo i greu cymuned ddysgu gynhwysol sy'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i'w dysgwyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr a'u deilliannau dysgu. Mae yna berthynas glòs rhwng y tiwtoriaid a'u dysgwyr ac, o ganlyniad, mae cymhelliant dysgwyr yn uchel ac mae hyn yn effeithio'n gyson ar eu profiad dysgu a'u cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu cymorth unigol o'r safon uchaf i'r dysgwyr yn eu gofal. Mae tiwtoriaid yn sicrhau awyrgylch gynhaliol, gadarnhaol ac ysgogol lle mae bron bob un o'u dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfrannu i'r gwersi heb boeni am wneud camgymeriadau. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynnig cefnogaeth ac adborth pwrpasol wedi eu hanelu at anghenion yr unigolyn, ac mae hyn yn arwain at gynnydd cryf a chyrraedd nodau personol.

Mae gan staff y darparwr ymrwymiad angerddol tuag at gadw dysgwyr a sicrhau eu bod yn parhau â'u gwersi. Mae'r cofrestri'n cael eu llenwi gan y tiwtoriaid yn amserol a'u gwirio'n effeithiol gan reolwyr. Mae tiwtoriaid yn cysylltu'n gyson â dysgwyr trwy e-bost, galwad ffôn neu lwyfan cyfrwng cymdeithasol er mwyn eu hannog i fynychu gwersi neu ddychwelyd i'r dosbarth pan fyddant wedi colli sesiynau. Yn ogystal, trefnir sesiynau dal i fyny gyda thiwtor er mwyn cefnogi dysgwyr i ailymuno â'r dosbarth. Os nad oes modd i ddysgwyr ailymuno â gwersi, mae'r darparwr yn ymdrechu i sicrhau bod cyfle iddynt ymuno â'r un cwrs neu gwrs arall yn ddiweddarach. Pan symudwyd y dysgu ar-lein, darparwyd amrediad o offer technegol i diwtoriaid a chyngor ac arweiniad i ddysgwyr er mwyn hwyluso eu profiad dysgu a sicrhau eu bod yn parhau ar gyrsiau'r darparwr.

Mae trefniadau cyfathrebu cryf iawn o fewn y ddarpariaeth er mwyn cefnogi dysgwyr. Mae'r darparwr yn cynnig ystod eang o wybodaeth, a chyfleoedd i ddysgwyr ddewis y cwrs mwyaf addas ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol gan y tiwtor ar gyrsiau dilyniant, prosbectws ar-lein, taflenni gwybodaeth, ac ati. Mae'r darparwr yn cyfeirio dysgwyr at raglen ddysgu fydd yn diwallu eu hanghenion personol, boed hynny'n gwrs dwys, yn gwrs hunanastudio neu'n gwrs ar gyflymder sy'n addas i'r dysgwyr. Disgrifir yn glir yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y darparwr a beth yw disgwyliadau'r darparwr yn ogystal. Mae'r wybodaeth hon yn golygu bod y

dysgwyr yn ymwybodol o'r cychwyn sut i fanteisio hyd yr eithaf ar eu gwersi Cymraeg.

Cyn dechrau'r cwrs, mae dysgwyr yn derbyn gohebiaeth yn tynnu eu sylw at y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt ac mae unrhyw ofynion a wneir gan ddysgwr yn cael eu rhaeadru i'r cydlynydd a'r tiwtor perthnasol. Yn ogystal, unwaith i'r cyrsiau ddechrau, gweithredir trefniant cyson ble mae tiwtoriaid yn rhaeadru gwybodaeth ychwanegol yn ôl i'r rheolwyr a'r cydlynwyr er mwyn derbyn cefnogaeth bellach yn ôl angen y dysgwyr unigol yn effeithiol. O fewn llawlyfr y dysgwr, darperir crynodeb o'r polisïau a gweithdrefnau perthnasol ynghyd â manylion cyswllt staff craidd.

Mae'r tiwtoriaid yn herio'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth yn rheolaidd. O ganlyniad, mae llawer yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg yn gyson gyda theulu, ffrindiau, yn y gweithle ac ati. Trefnir rhaglen eang o weithgareddau i ddysgwyr y ddarpariaeth, gan gynnwys teithiau cerdded, clybiau ffilm a hanes, clybiau clonc a choginio. Rhennir gwybodaeth am ddigwyddiadau mentrau iaith y rhanbarthau yn ogystal â sefydliadau a mudiadau Cymraeg sy'n darparu arlwy addas. Hysbysebir y sesiynau hyn yn effeithiol gan diwtoriaid a swyddogion er mwyn cefnogi'r dysgwyr i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn o fewn eu cymunedau.

Mae'r darparwr yn sicrhau trefniadau clir ac effeithiol i gywain barn dysgwyr a gweithredu ar y farn honno. Cynhelir deialog barhaus â'r dysgwyr trwy'r arsylwadau blynyddol, sgyrsiau â'r tiwtoriaid a'r cydlynwyr, a'r holiaduron mewnol a chenedlaethol. Hyrwyddir yr holiadur cenedlaethol blynyddol Dweud Eich Dweud yn briodol, gyda thua traean o'r dysgwyr yn ei lenwi. Yn ogystal, mae'r darparwr yn anfon holiaduron ar ddiwedd cyrsiau penodol ac at y dysgwyr hynny sy'n gadael eu cyrsiau'n gynnar fel cyfrwng caffael gwybodaeth ddefnyddiol am y rhesymau dros wneud hynny. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r holiaduron yn cael effaith gadarn trwy drefn adrodd a gweithredu amserol. Mae'r deilliannau'n cael effaith fwriadus a chadarnhaol ar brofiad dysgu Cymraeg dysgwyr ar draws y ddarpariaeth. Mae proses ganmol a chwyno addas yn ei lle a chaiff ei gweithredu'n effeithiol, fel y bo'n briodol.

Mae gan y darparwr drefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae uwch arweinwyr y darparwr yn gosod cyfeiriad hynod glir ar gyfer y gwasanaeth ac yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ei gyfeiriad strategol. Mae ganddynt weledigaeth a strategaeth glir sy'n hybu nodau ac amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel uned allweddol o fewn gwasanaeth ehangach Prifysgol Aberystwyth, gan ddylanwadu'n uniongyrchol a chadarnhaol ar ei datblygiad ieithyddol. Er enghraifft, mae un o arweinwyr y gwasanaeth yn rhan o bwyllgor cydraddoldeb y brifysgol gan gyfrannu at ddatblygiad y maes hwnnw. Mae'r pennaeth yn angerddol dros y gwasanaeth ac yn derbyn cefnogaeth effeithiol iawn gan dîm arwain medrus. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda thimau eraill o fewn y gwasanaeth, fel y cydlynwyr a'r tîm gweinyddol. Maent yn gosod arweiniad clir a chefnogol ar gyfer y tiwtoriaid, gan hybu

eu datblygiad, a darparu cyfleoedd iddynt gyfrannu mewn modd gwerthfawr iawn at ddatblygiad y gwasanaeth. Er enghraifft, wrth drafod a datblygu cynlluniau ar gyfer ymateb i anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae arweinwyr yn rhagweithiol er mwyn manteisio ar arian prosiectau, ac yn gweithio'n ddygn i gynnig elfennau arloesol a newydd. Er enghraifft, yn achos cynllun peilot Cymraeg yn y Cartref mewn pump ysgol gynradd gyda Chyngor Sir Ceredigion, ac wrth weithredu prosiectau 'Cymraeg Gwaith' gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda lle cynhelir cyrsiau dwys a rhaglen Codi Hyder i staff. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth i 148 o ddysgwyr hunanastudio yn Llywodraeth Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth strategol â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i hyfforddi'r gweithlu addysg a chydag awdurdodau addysg yn yr un modd. O ganlyniad, mae'r darparwr yn cyflawni gwaith pwysig o ran modelu dulliau caffael iaith lwyddiannus y sector Cymraeg i Oedolion i ddarpar athrawon ac ymarferwyr presennol mewn ysgolion.

Mae'r darparwr mewn sefyllfa anarferol yn y sector Cymraeg i Oedolion gan ei fod yn gweithredu mewn ardal lle mae mwy nag un darparwr. Yn Sir Gaerfyrddin, mae DCCPSG yn cynnig cyrsiau dwys ac uwch ac mae Dysgu Cymraeg Sir Gar (DCSG) yn cynnig cyrsiau darnynnol ar lefelau is. Maent yn gweithio'n briodol i gynllunio darpariaeth yn y sir. Fodd bynnag, o safbwynt cynllunio cynnydd dysgwyr unigol, nid yw gweithdrefnau rhannu data cenedlaethol cyfredol yn caniatáu i ddarparwyr gael mynediad at wybodaeth bersonol dysgwyr sy'n trosglwyddo o un darparwr i'r llall. O ganlyniad, nid yw'r ddau ddarparwr sy'n weithredol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnal trafodaethau ansoddol ynglŷn â chynnydd a safonau dysgwyr sy'n trosglwyddo rhyngddynt.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau trylwyr ar gyfer adnabod cryfderau a gwendidau cymharol y ddarpariaeth. Mae hunanwerthuso'n broses barhaus ganddynt, ac mae wedi gwreiddio'n gadarn dros gyfnod estynedig. Mae arweinwyr yn cynnal amrediad defnyddiol o weithgareddau sy'n ystyried barn y gweithlu ac yn rhoi gwybodaeth uniongyrchol iddynt am gynnydd dysgwyr, ac am safonau'r addysgu ar draws y gwasanaeth. Parhaodd y gweithdrefnau hyn yn ystod cyfnod y pandemig fwy neu lai'n ddi-dor, a llwyddwyd i gynnig darpariaeth o bell yn gyflym iawn. Mae barn tiwtoriaid a dysgwyr yn derbyn ystyriaeth lawn wrth benderfynu ynglŷn â pharhau'n rhithiol neu ddechrau ailgyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth o wahanol ffynonellau trwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, mae trefniadau arsylwi a rhannu arbenigedd ymysg tiwtoriaid yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad dulliau addysgu. Noda'r tiwtoriaid eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a dderbyniant gan y cydlynwyr ardal, a'u bod yn saernïo'r gefnogaeth ar gyfer unigolion.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r fframwaith ansawdd cenedlaethol yn effeithiol iddynt adnabod ac ymateb yn strategol i'r blaenoriaethau a adnabyddir. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'n effeithiol ac yn gwerthuso cynnydd yn drwyadl. Er enghraifft, buont yn canolbwyntio ar sut mae tiwtoriaid yn cynnig adborth i ddysgwyr gan ystyried barn y tiwtoriaid a'r dysgwyr. Mae'r gweithlu'n chwarae rhan lawn yn y gweithdrefnau hunanwerthuso trwy weithio'n agos gyda'u rheolwyr llinell a thrwy gyfarfodydd rheolaidd o bwyllgorau allweddol fel y pwyllgor hyfforddiant, ansawdd a chwricwlwm.

Mae gan y darparwr weithdrefnau rheoli perfformiad staff cadarn iawn sy’n golygu bod y staff i gyd, gan gynnwys y staff dysgu rhan amser, yn destun adolygiadau blynyddol sydd yn arwain at adnabod anghenion a chyfleoedd hyfforddiant. Fel rhan o’r broses, mae’r darparwr wedi bod yn cefnogi staff sydd â diddordeb mewn arbenigo mewn meysydd penodol, er enghraifft rhaglenni Codi Hyder, neu anghenion dysgu ychwanegol, i ddatblygu arbenigedd yn y meysydd hynny.

Yn dilyn rhaglenni arsylwi blynyddol, ac yn dilyn mewnbwn y cydlynwyr i’r canfyddiadau, mae rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu llunio ar gyfer pob tiwtor, ac o ganlyniad, mae bron bob un tiwtor wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol, naill ai gan dîm y darparwr neu gan y Ganolfan Genedlaethol.

Mae’r darparwr yn cynnig amrediad eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol i'w staff, ac yn ogystal â hyfforddiant ar feysydd dysgu ac addysgu, cynigir arlwy ehangach mewn meysydd fel lles ac amrywiaeth. Mae’r rhan fwyaf o staff y darparwr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac yn eu canmol.

Rhoddir sylw manwl i ddatblygiad tiwtoriaid newydd, ac mae’r Cydlynydd Hyfforddiant, Ansawdd a Chwricwlwm yn sicrhau rhaglen hyfforddi gynhwysfawr iddynt gan gynnwys dilyn cymhwyster cenedlaethol y sector, sef Dechrau Dysgu. Mae’r Cydlynydd yn cyfrannu at ddysgu’r cymhwyster hwnnw ar lefel genedlaethol.

Fel rhan o ddatblygiad y staff, mae’r darparwr yn sicrhau bod cyfleoedd cyson gan diwtoriaid i ymweld â dosbarthiadau eu cyd-diwtoriaid er mwyn arsylwi arfer dda ac er mwyn datblygu eu haddysgeg. Nodant fod hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar eu haddysgu. Mae’r darparwr yn anelu at welliant parhaus yn ansawdd ei addysgu ac mae wedi adnabod ynganu a’r defnydd o’r iaith darged fel agweddau a fydd yn cael sylw manwl fel rhan o’r rhaglen hyfforddi wrth symud ymlaen.

Mae pennaeth y darparwr a’i dîm arwain yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y gwasanaeth, ac yn cefnogi amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llwyddiannus.

Mae gan y darparwr lefelau priodol o staffio ar gyfer amrediad eang o gyrsiau a gweithgareddau. Mae arweinwyr yn rheoli’r gyllideb yn effeithiol iawn ac yn rheoli gwariant staffio yn ofalus iawn er mwyn gwneud y gorau o’u cyllid, a sicrhau bod y weithgaredd yn gost effeithiol.

Mae lefelau brigdorri’r grant blynyddol yn briodol ac yn ddim mwy na 15%. Mae’r brifysgol yn dyrannu’r cyllid a frigdorrir ar gyfer ariannu gwasanaethau cefnogol fel adnoddau dynol, ystadau ac is-adeiledd dechnegol. Mae hyn yn cefnogi gweithgaredd graidd y darparwr yn dda iawn.

Yn ystod y cyfnod diweddar lle bu arbedion o ganlyniad i gyflwyno dysgu o bell, targedwyd cyllid tuag at ehangu nifer y dosbarthiadau a chefnogi anghenion dysgwyr a thiwtoriaid.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y ddarparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at: cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 31/08/2022